

DECEMBER 2006



WOODCHIP

for Livestock Bedding Project

Griffiths family

Cilgryman Fawr,
Cwmfelin Mynach, Whitland

The Woodchip for Livestock Bedding Project was initiated to investigate the potential of using woodchip as an alternative to straw as indoor bedding for sheep and cattle. From January to March 2006 cattle and sheep were housed on woodchip at three development sites, ADAS Pwllpeiran, IGER Aberystwyth and Glynllifon College. During this housing period similar groups were also housed on straw and comparisons were made of their feed intakes, growth rates, cleanliness and health. Assessments were also made of the time and labour requirements for using woodchip in comparison to straw.

An additional part to the project is to determine how best to utilise the woodchip after animals have been bedded on it. Composting studies are being carried out by Bangor University to investigate how the woodchip breaks down and the nutrient value of the end product. The project will also investigate the potential to reuse the woodchip as bedding after it has been composted. Glynllifon College will demonstrate this in February 2007.

Eleven demonstration farms have been set up across Wales to allow farmers to view the project on a local basis. Either cattle or sheep will be housed on these farms for an 8-10 week period on both woodchip and straw. Assessments will be made of the health, welfare, growth and cleanliness of the animals as well as the labour required for the two



systems. Full costings will be given, as the economies of using woodchip will be an important consideration for farmers. The Griffiths are part of this demonstration farm network and below is a description of their farm enterprises and how woodchip fits into this.

Cattle

The Griffiths have concentrated on pedigree Limousin breeding since 1992 and this now forms the main enterprise on the farm. They favour the Limousin breed because of its easy calving, good mothering ability and general easy management. Regular appearances are made at county and national shows. Their most notable success to date was with their bull, Mynach Sporty, taking breed champion at the Royal Welsh show in 2004. This year they won the championship at Pembrokeshire County Show as well as winning the championship in the Breed Group of three.

Apart from three of the bulls, the cattle are all homebred. The majority of the cows calve during June and July, with the remainder calving in March. Over 90% of the offspring are sold as breeding stock but any that do not make the grade are finished for slaughter. All the stock is housed in early November and bedded on a mixture of sawdust, straw and bark peelings. The sawdust is particularly good at keeping the animals clean and dry; a must

for showing off the pedigree stock and it is hoped that the woodchip will provide equal benefits.

Sheep

There are 40 pedigree Texel ewes and 110 Texel cross commercial ewes at Cilgryman Fawr. Everything is mated to a Texel ram to lamb in February and March, with the emphasis being to produce lambs that finish early off grass. The sheep are used as a grazing management tool to tidy up the fields after the cows have grazed them.

Sward management

Some of the fields at Cilgryman Fawr have not been ploughed for 70 years but despite this the pastures are in excellent condition with a good balance of perennial ryegrasses and white clover. The soils are regularly tested to ensure fertiliser applications match the soil requirements. These attributes fit well with the Tir Cynnal agri-environment scheme that the Griffiths are part of.

Woodchip

With health and cleanliness a priority when producing pedigree stock this will form the focus of the suitability of woodchip as bedding. The potential for re-using composted woodchip is also of interest particularly as there may be cost benefits in doing this.

Farm Facts

- 187 acres
- 150 Texel ewes
- 67 Pedigree Limousin cows
- Cilgryman Fawr is home to Mynach Limousins

RHAGFYR 2006



Prosiect NADDION PREN

ar gyfer Gwasarn Da Byw

Y Teulu Griffiths Cilgryman Fawr, Cwmfelin Mynach, Hendy-gwyn

Cychwynwyd y Prosiect Naddion Pren ar gyfer Gwasarn Da Byw er mwyn ymchwilio i botensial defnyddio naddion pren yn lle gwellt yn wasarn dan do i ddefaid a gwartheg. O fis Ionawr tan fis Mawrth 2006 cadwyd gwartheg a defaid dan do ar naddion pren mewn tri safle datblygu, sef ADAS Pwllpeiran, IGER Aberystwyth a Choleg Glynllifon. Yn ystod y cyfnod hwn cadwyd grwpiau cyffelyb dan do hefyd ar wellt a gwnaed cymariaethau â'u cymeriant bwyd, cyfraddau twf, glendid ac iechyd. Yn ogystal, aseswyd y gofynion amser a llafur wrth ddefnyddio naddion pren mewn cymhariaeth â gwellt.

Rhan arall o'r prosiect yw penderfynu sut orau i ddefnyddio'r naddion pren ar ôl eu defnyddio'n wasarn. Mae astudiaethau gwrteithio'n cael eu cynnal gan Brifysgol Bangor er mwyn darganfod sut mae naddion pren yn dadelfennu a darganfod gwerth maethol y cynnyrch terfynol. Bydd y prosiect hefyd yn ymchwilio i'r potensial o aildefnyddio'r naddion pren yn wasarn ar ôl iddyn nhw gael eu gwrteithio. Bydd Coleg Glynllifon yn arddangos hyn ym mis Chwefror 2007.

Mae un ar ddeg o ffermydd arddangos wedi cael eu sefydlu ledled Cymru fel bod gan ffermwyr gyfle i weld y prosiect yn lleol. Bydd naill ai gwartheg neu ddefaid yn cael eu cadw dan do ar y ffermydd hyn am gyfnod o rhwng wyth a deng wythnos ar naddion pren ac ar wellt. Asesir iechyd, lles, twf a glendid yr

FFEITHIAU AM Y FFERM

- 187 erw
- 150 o famogiaid Texel
- 67 o wartheg Limousin pedigri
- Mae Cilgryman Fawr yn gartref i 'Mynach Limousins'



anifeiliaid yn ogystal â'r gwaith sydd ynghlwm â'r naill system a'r llall. Darperir y costau llawn, oherwydd bydd y gost o ddefnyddio naddion pren yn ystyriaeth bwysig i ffermwyr. Mae'r Teulu Griffiths yn rhan o'r rhwydwaith o ffermydd arddangos ac isod gwelir disgrifiad o'u mentrau fferm a sut mae naddion pren yn rhan o hyn.

Gwartheg

Mae'r teulu Griffiths wedi canolbwyntio ar fridio gwartheg Limousin pedigri oddi ar 1922 a dyna yw'r brif fenter ar y fferm erbyn hyn. Mae'n well ganddynt y brid Limousin am fod y buchod yn lloia'n rhwydd, yn meddu ar rinweddau mamol da ac yn hawdd eu rheoli. Bydd y gwartheg yn cael eu harddangos yn rheolaidd mewn sioeau sirol a chenedlaethol. Y llwyddiant mwyaf nodedig hyd yma oedd y tarw, Mynach Sporty, yn ennill pencampwriaeth y brid yn Sioe Frenhinol Cymru yn 2004. Eleni, enillwyd y bencampwriaeth yn Sioe Sir Benfro ynghyd â'r bencampwriaeth am y grŵp o dri.

Ar wahân i dri o'r teirw, cafodd yr holl wartheg eu magu ar y fferm. Bydd y rhan fwyaf o'r buchod yn lloia yn ystod misoedd Mehefin a Gorffennaf, a'r gweddill ym mis Mawrth. Bydd dros 90% o'r epil yn cael eu gwerthu fel anifeiliaid bridio, ond bydd unrhyw anifeiliaid nad ydynt yn ddigon da ar gyfer hynny yn cael eu pesgi i'w lladd. Caiff yr holl anifeiliaid eu rhoi dan do ddechrau Tachwedd a chael gwasarn sy'n gymysgedd o flawd llif, gwellt a rhisgl. Mae'r blawd llif yn arbennig o dda am

gadw'r anifeiliaid yn sych a glân; mae hyn yn bwysig i'r anifeiliaid pedigri sy'n cael eu harddangos a'r gobaith yw y bydd y naddion pren lawn cystal.

Defaid

Mae yna 40 o famogiaid Texel pedigri a 110 o famogiaid Texel o groesiad masnachol yng Nghilgryman Fawr. Mae'r holl famogiaid yn cael hwrdd Texel er mwyn wyna ym misoedd Chwefror a Mawrth, gyda'r pwyslais ar gynhyrchu ŵyn sy'n pesgi'n gynnar ar laswellt. Caiff y defaid eu defnyddio i reoli'r pori fel bod y caeau'n cael eu cymhennu ar ôl cael eu pori gan y gwartheg.

Rheoli'r tir glas

Ni chafodd rhai o'r caeau yng Nghilgryman Fawr eu haredig er 70 mlynedd, ond er gwaethaf hyn mae'r tiroedd pori mewn cyflwr rhagorol gyda chydbywedd da o rygwellt parhaol a meillion gwyn. Caiff y priddoedd eu profi'n rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr fod y defnydd o wrtaith yn unol â gofynion y pridd. Mae'r nodweddion hyn yn gydnaws â chynllun amaeth-amgylchedd Tir Cynnal y mae'r teulu Griffiths yn rhan ohono.

Naddion Pren

Gydag iechyd a glanweithdra yn flaenoriaeth wrth gynhyrchu anifeiliaid pedigri, bydd hyn yn ganolog i gyfaddasrwydd naddion pren yn wasarn. Mae'r potensial ar gyfer aildefnyddio naddion pren hefyd o ddi-ddordeb, yn enwedig am y gallai arbed costau.